**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol Addysg a Sgiliau

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mercher, 15 Chwefror 2023 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M Durke (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| F M Gordon | L R Jones | S Joy |
| S Pritchard | T M White | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Sarah Hughes | Rheolwr Tîm Strategaeth Addysg |
| Helen Morgan-Rees | Cyfarwyddwr Addysg |
| Jeff Fish | Corporate Fraud Team Investigator |
| Melissa Perry | Cyfreithiwr Dan Hyfforddiant |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd R V Smith - Aelod y Cabinet Dros Addysg a Dysgu

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J P Curtice a/ac B Hopkins

---

### 35 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

### 36 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyflawni Corfforedig Addysg a Sgiliau a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2023 fel cofnod cywir.

### 37 Adolygiad Llywodraethu Ysgolion - Gwanwyn 2023.

Cyfeiriodd Helen Morgan-Rees at bwysigrwydd arweinyddiaeth lwyddiannus mewn ysgolion, a bod llywodraethwyr ysgolion yn chwarae rôl flaenllaw. Nododd fod system dda ar waith yn Abertawe, ac mai'r nod fyddai adeiladu ar hyn a'i ddatblygu wrth symud ymlaen. Mae effaith arweinyddiaeth ar ein dysgwyr yw rhywbeth y mae angen i ni ganolbwyntio arno o hyd, a sut mae hyn yn effeithio ar ddatblygiad, sgiliau a chynnydd dysgwyr.

Mae’r adroddiad craffu y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad yn amlinellu'r ffocws hwn ac mae nifer o'r argymhellion yn parhau ac yn berthnasol o hyd er gwaethaf yr heriau mawr yn lleol ac yn genedlaethol mewn perthynas ag addysg ers ei gyhoeddi.

Yna, rhoddodd Jeff Fish gyflwyniad a oedd yn rhoi diweddariad i aelodau'r Pwyllgor ynghylch cynnydd a wnaed yn erbyn Panel Ymchwiliad Craffu Llywodraethu Ysgolion 2016 ac yn ceisio ystyriaeth ynghylch sut i gefnogi llywodraethu ysgolion orau yn y dyfodol, ac i wireddu blaenoriaethau'r cyngor er mwyn sicrhau bod arweinyddiaeth yn cefnogi cynnydd dysgwyr.

Amlinellwyd cefndir yr adolygiad craffu gwreiddiol, yn ogystal ag ymatebion Aelodau’r Cabinet i'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad. Mae mwyafrif yr argymhellion a phrif syniadau'r adroddiad yn gywir ac yn berthnasol o hyd heddiw ac maent bellach wedi'u gwreiddio yn arferion gwaith yr Adran Addysg.

Amlinellwyd y safbwynt presennol diweddaredig mewn perthynas â chefndir newidiol cenedlaethol addysg, yn enwedig o ran cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, cychwyniad Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg a chael gwared ar gategoreiddio ysgolion, ynghyd â'r materion lleol mewn perthynas â phartneriaeth addysg ranbarthol ERW, sydd bellach wedi dod i ben ac wedi'i ddisodli gan Partneriaeth.

Amlinellwyd y cynnydd sylweddol a wnaed wrth ddatblygu hyfforddiant ychwanegol a mwy amrywiol a hygyrch ar gyfer llywodraethwyr ysgolion, yn ogystal â rhoi’r matrics recriwtio a sgiliau effeithiol ar waith.

Mae presenoldeb mewn sesiynau hyfforddi llywodraethwyr wedi cynyddu ac wedi gwella o ganlyniad, ond efallai y bydd angen ymagwedd fwy cyfunol ar-lein/wyneb yn wyneb wrth symud ymlaen er mwyn cefnogi rhai llywodraethwyr yn well.

Amlinellodd a disgrifiodd ei gefndir personol mewn Llywodraeth Leol a'r tu hwnt iddi o ran Addysg a llywodraethu a chyfeiriodd at gefndir creu ei swydd, a ddechreuodd fis Hydref diwethaf. Un prif ffocws a oedd ganddo oedd datblygu gweledigaeth newydd ar gyfer llywodraethu ysgolion, sy'n cyd-fynd â blaenoriaeth y cyngor wrth sicrhau bod arweinyddiaeth yn cefnogi cynnydd dysgwyr.

Cydnabu fod rôl llywodraethwyr ysgolion wedi datblygu ac ehangu dros y blynyddoedd ac mae'n rôl sy’n heriol ac yn werth chweil. Nodwyd argaeledd cymorth a chefnogaeth gan lywodraethwyr profiadol a gweithwyr proffesiynol perthnasol sydd ar gael i bobl sy'n newydd i'r swydd ac mae'n bwynt rydym wedi'i sefydlu dros y blynyddoedd a dylid ei ddefnyddio pan fydd angen. Dyma faes y mae angen i ni ei ddatblygu a'i ehangu, gan ddatblygu rhaglen 'hunangymorth' a mentora i ryw raddau.

Cyfeiriodd at y canlyniadau posib a amlinellwyd yn yr adroddiad y gallai fod aelodau am eu hystyried.

Gofynnodd aelodau'r pwyllgor gwestiynau niferus a gwnaethant sylwadau ynghylch yr wybodaeth a nodwyd yn yr adroddiad a'r cyflwyniad, yn enwedig mewn perthynas â'r meysydd canlynol:

- y gefnogaeth, yr hyfforddiant a’r help sydd eisoes ar gael i lywodraethwyr,
- adnabod yr angen i gynyddu a chefnogi llywodraethwyr ymhellach yn eu rolau, sy'n hollol wirfoddol,
- cydnabod faint o amser, gwaith ac ymrwymiad y mae llywodraethwyr yn eu rhoi i'r rôl,
- yr angen i hysbysebu a hyrwyddo'r swyddi gwag sydd ar gael ar hyn o bryd mewn cyrff llywodraethu'n well ar gyfryngau cymdeithasol,
- mae'r broses benodi ddiwygiedig ar gyfer llywodraethwyr yr ALl wedi helpu ac wedi gwella'r sefyllfa gyffredinol,

Ymatebodd y swyddog, y Cyfarwyddwr ac Aelod y Cabinet yn briodol i'r materion a'r pwyntiau a godwyd uchod a nodwyd y byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y pwyllgor sy'n ychwanegu at y trafodaethau a'r materion a godwyd heddiw, er mwyn diweddaru a mireinio'r gweithdrefnau presennol wrth symud ymlaen.

**38 Cynllun Gwaith.**

Siaradodd y Cadeirydd ymhellach am y cynllun gwaith drafft a ddosbarthwyd ac am yr adroddiad a drafodwyd yn ystod yr eitem flaenorol ac amlinellodd y byddai cyfarfod mis Chwefror yn canolbwyntio eto ar Lywodraethu Ysgol Cryfach a Mwy Effeithiol.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.02 pm

**Cadeirydd**